

Cyfarfod	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad.	29ain Tachwedd 2016
Pwnc.	Siarter Aelodau
Pwrpas.	Diweddaru'r pwyllgor ar y cais am y siarter Cais i sefydlu grwo ymgynghori ar gynnwys y siarter
Awdur	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

## CEFNDIR

1.1 Bydd yr aelodau yn cofio fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi trafod 'Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr' yn y gorffennol. Datblygwyd y Freinlen gan Gymdeithas Llywodraeth leol Cymru, a chyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Mae elfennau o'r freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Ei fwriad yw gosod safonau penodol ym maes datblygu aelodau, ac mae'r Pwyllgor wedi ei drafod yn y gorffennol.

1.2 Adroddwyd yn 2014 nad oedd modd ennill y Siarter bellach oherwydd diffyg adnoddau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu ceisiadau gan awdurdodau. Bu i'r Pwyllgor benderfynu fod egwyddorion y Siarter yn haeddiannol i'w cefnogi, ac mae'r Cyngor wedi parhau i weithio tuag atynt yn gyson ers hynny.

1.3 Bellach, mae adnoddau ar gael gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu ceisiadau am y Siarter, ac mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i gyflwyno cais.

## SWYDD DDISGRIFIADAU I AELODAU

1.4 Un o'r prif faterion sydd angen sylw er mwyn ennill y Siarter yw sicrhau fod swydd ddisgrifiadau yn bodoli ar gyfer rolau penodol i aelodau yn y Cyngor. Roedd nifer o swydd ddisgrifiadau yn bodoli eisoes, ond roedd angen creu nifer o swydd ddisgrifiadau o'r newydd hefyd. Er mwyn ceisio cael cysondeb rhwng y swydd ddisgrifiadau, cymerywd y cyfle i ddiweddaru y rhai oedd yn bodoli eisoes hefyd.

1.5. Gellir gweld copiau o'r swydd ddisgrifiadau drafft yn **Atodiad A**. Dylid nodi fod y "Swydd ddisgrifiad Aelod Cyffredin" yn berthnasol i bob Aelod, a'i fod yn sefyll ar y cyd â swydd ddisgrifiadau penodol ar gyfer swyddi arbennig. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar y swydd ddisgrifiadau drafft

1.6.. Yn amodol ar farn y Pwyllgor, er mwyn sicrhau ymgynghori yn llawn ar y swydd ddisgrifiadau, bwriedir yn awr ymgynghori gyda'r Cadeiryddion a'r swyddogion perthnasol i bob pwyllgor ynghylch y swydd ddisgrifiad drafft ar gyfer eu maes.

## GWAITH PELLACH I ENNILL Y FREINLEN

1.7 Fodd bynnag, mae angen cyflawni rhai elfennau o waith arall ac mae hynny yn mynd yn ei flaen. Credir y byddai sicrhau barn aelodau ynghylch yr elfennau eraill hefyd o gymorth. Nid yw adrodd y cyfan i Bwyllgor yn ymarferol, ac felly awgrymir y byddai grwp bychan o aelodau i herio ac adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei ffurfio o gymorth i'r Cyngor ennill y Freinlen.

1.8 Gwahoddir y Pwyllgor:

- I gynnig sylwadau ar y swydd ddisgrifiadau drafft yn Atodiad A
- I gymeradwyo y ffordd ymlaen o ran ymgynghori ymhellach ar y swydd ddisgrifiadau gyda'r Aelodau a'r swyddogion perthnasol
- i sefydlu grwp bychan o aelodau i roi eu barn a'n cynorthwyo i ennill y Siarter.  
Awgrymir grwp o 4 neu 5 o aelodau.